OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2018 Rhif (Cy. )

# HYSBYSU YNGHYLCH MARWOLAETHAU, EU HARDYSTIO A'U COFRESTRU, CYMRU

## Rheoliadau Ardystio Marwolaethau (Archwilwyr Meddygol) (Ffioedd) (Cymru) 2018

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn darparu bod ffi o £XX yn daladwy i Fwrdd Iechyd Lleol mewn cysylltiad â chadarnhad archwilydd meddygol o achos y farwolaeth a nodir ar dystysgrif ymarferydd a fu'n gweini ar yr ymadawedig neu mewn cysylltiad â dyroddi tystysgrif archwilydd meddygol (rheoliad 2(1)). Rhaid i'r ffi gael ei thalu o fewn cyfnod o 3 mis i'r dyddiad y cadarnhaodd yr archwilydd meddygol achos y farwolaeth neu i ddyddiad y llofnod ar dystysgrif yr archwilydd meddygol, pa un bynnag sy'n gymwys. Mae'r ffi yn daladwy gan y person sy'n rhoi i gofrestrydd genedigaethau a marwolaethau ar gyfer yr is-ranbarth lle y bu'r farwolaeth, neu i swyddog rhagnodedig arall, dystysgrif wedi ei chadarnhau yr ymarferydd a fu'n gweini ar yr ymadawedig neu dystysgrif yr archwilydd meddygol, onid yw person arall wedi talu'r ffi. Mae'r Rheoliadau hefyd yn darparu i gofrestrydd genedigaethau a marwolaethau ar gyfer yr is-ranbarth lle y bu'r farwolaeth roi gwybodaeth i Fwrdd Iechyd Lleol at ddibenion galluogi'r bwrdd iechyd i gasglu'r ffi ragnodedig (rheoliad 3).

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2018 Rhif (Cy. )

# HYSBYSU YNGHYLCH MARWOLAETHAU, EU HARDYSTIO A'U COFRESTRU, CYMRU

## Rheoliadau Ardystio Marwolaethau (Archwilwyr Meddygol) (Ffioedd) (Cymru) 2018

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *** |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru* | *** |
| *Yn dod i rym* | *** |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 20(5) ac 176(3) o Ddeddf Crwneriaid a Chyfiawnder 2009(**1**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

'Yn unol ag adran 176(5) o'r Ddeddf honno, gosodwyd drafft o'r offeryn hwn gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac fe'i cymeradwywyd ganddo drwy benderfyniad.

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Ardystio Marwolaethau (Archwilwyr Meddygol) (Ffioedd) (Cymru) 2018 a deuant i rym ar XX.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

(**1**) 2009 p. 25; ystyr "the appropriate Minister", o ran Cymru, yw Gweinidogion Cymru, gweler adrannau 20(7) a 19(6).

**Ffi**

**2.**—(1) Bydd ffi o £ X yn daladwy i Fwrdd Iechyd Lleol mewn cysylltiad ag—

(a) cadarnhad archwilydd meddygol o achos y farwolaeth a nodir ar dystysgrif ymarferydd a fu'n gweini ar yr ymadawedig; neu

(b) dyroddi tystysgrif archwilydd meddygol.

(2) Rhaid i'r ffi a ragnodir o dan baragraff (1) gael ei thalu o fewn y cyfnod perthnasol gan y person sy'n rhoi i gofrestrydd genedigaethau a marwolaethau ar gyfer yr is-ranbarth lle y bu'r farwolaeth o dan adran 22 (cofrestru achos marwolaeth ar ôl cael tystysgrif feddygol) o Ddeddf 1953(**1**)—

(a) tystysgrif wedi ei chadarnhau yr ymarferydd a fu'n gweini ar yr ymadawedig y mae archwilydd meddygol wedi cadarnhau achos y farwolaeth a nodir ar dystysgrif ymarferydd a fu'n gweini ar yr ymadawedig mewn cysylltiad â hi; neu

(b) tystysgrif yr archwilydd meddygol.

(3) Y cyfnod perthnasol—

(a) mewn perthynas â ffi sy'n daladwy o dan baragraff 1(a) yw tri mis sy'n dechrau â dyddiad y ffurflen a lunnir yn unol â rheoliad 12(2) o Reoliadau Ardystio Marwolaethau 2014 sy'n hysbysu am gadarnhad yr archwilydd meddygol o achos y farwolaeth; neu

(b) mewn perthynas â ffi sy'n daladwy o dan baragraff 1(b) yw tri mis sy'n dechrau â dyddiad y llofnod ar dystysgrif yr archwilydd meddygol a lunnir yn unol â rheoliad 22(2) o Reoliadau Ardystio Marwolaethau 2014.

(4) Ni fydd ffi yn daladwy gan y person a bennir ym mharagraff (2) pan fo person arall yn talu'r ffi a ragnodir o dan baragraff (1) o fewn y cyfnod perthnasol a bennir ym mharagraff (3).

**Yr wybodaeth sydd i gael ei darparu gan gofrestrydd**

**3.** At ddibenion galluogi casglu'r ffi a ragnodir o dan reoliad 2, bydd cofrestrydd genedigaethau a marwolaethau ar gyfer yr is-ranbarth lle y bu'r farwolaeth neu y daethpwyd o hyd i'r corff yn rhoi i Fwrdd Iechyd Lleol sy'n gofyn am yr wybodaeth enw

---

(**1**) Deddf Cofrestru Genedigaethau a Marwolaethau 1953 (p. 20). Amnewidiwyd adran 22 gan adran 177(1) o Ddeddf Crwneriaid a Chyfiawnder 2009 a pharagraffau 6 a 14 o Atodlen 1 iddi.

a chyfeiriad y person a roddodd i'r cofrestrydd neu ei swyddog dystysgrif wedi ei chadarnhau ymarferydd a fu'n gweini ar yr ymadawedig neu dystysgrif archwilydd meddygol.

*Vaughan Gething*
Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon, un o Weinidogion Cymru

Dyddiad